| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor llawn |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Chwefror 2014 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Parker, Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol |

**Teitl:** Cymeradwyo Cynigydd o Ddewis, a'r ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau - Prosiect Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ym mis Chwefror 2008 rhoddodd y Cabinet ei gymeradwyaeth i Gyngor Sir Ddinbych fynd i bartneriaeth ffurfiol â phedwar cyngor arall yng ngogledd Cymru, i gaffael contract 25 mlynedd ar y cyd ar gyfer darparu cyfleusterau gwaredu gwastraff gweddilliol. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth i gwblhau gweddill y camau yn y broses.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Er mwyn hwyluso'r broses gaffael, mae pob cyngor sy'n rhan o'r bartneriaeth wedi arwyddo Cytundeb Rhwng Awdurdodau ffurfiol (IAA1). O dan y cytundeb hwn, rhoddwyd yr awdurdod i wneud penderfyniadau i Fwrdd y Prosiect a Phwyllgor y Prosiect, ond yn cadw nifer o benderfyniadau allweddol yn y cynghorau unigol. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â dau o'r materion a gadwyd, h.y. cadarnhad ynglŷn â'r cynigydd o ddewis terfynol, a chymeradwyo'r ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA2). Oherwydd gwerth y prosiect, mae angen cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar gyfer y camau hyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r cyngor:
a) gymeradwyo'r dyfarniad ar gyfer statws Cynigydd o Ddewis i Wheelabrator Technologies Inc (WTI) ar yr amod yn dilyn deialog a thrafodaeth fanwl gyda WTI, bod WTI yn cyflwyno cais am gynnig Tendr Terfynol (CFT) sy'n cynrychioli gwerth am arian ar gyfer y bartneriaeth; ac yn dilyn gwerthusiad ariannol, cyfreithiol a thechnegol manwl o gais CFT WTI, bod y bartneriaeth yn fodlon â'r cydbwysedd o risg arfaethedig gyda'r 'Cytundeb Prosiect')
b) rhoi awdurdod i Gyd Bwyllgor Gweddilliol Gogledd Cymru gymryd yr holl gamau angenrheidiol i symud y broses ymlaen gyda WTI o'r cam Cynigydd o ddewis hyd at orffen y broses Ariannol a dyfarnu contract.
c) Ymrwymo i'r Bartneriaeth a'r Prosiect drwy fabwysiadu, ynghyd â'r 4 cyngor arall, yr egwyddorion yn yr 2il Gytundeb Rhwng Awdurdodau sy'n adlewyrchu telerau allweddol y Cytundeb Prosiect i'r Prif Gyngor ei wneud â'r Cynigydd o Ddewis ar Ddyfarnu Contract.
d) Dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr Arweiniol Sir y Fflint i gwblhau'r 2il Gytundeb Rhwng Awdurdodau ac i'r awdurdodau cyfansoddol ei arwyddo, a dosbarthu'r cytundeb terfynol i'r Swyddogion Monitro ar gyfer y 5 Awdurdod er mwyn cymryd barn yr holl Awdurdodau cyfansoddol i ystyriaeth a chyfeirio'n ôl at y Cydbwyllgor i gymeradwyo unrhyw wyriadau perthnasol o

egwyddorion y cytunwyd arnynt.
e) Cytuno i arwyddo'r ail Gytundeb Rhwng Awdurdodau unwaith y bydd wedi'i gwblhau yn unol â'r drefn uchod
f) Cymeradwyo cyllideb ddiwygiedig arfaethedig y prosiect o £595,558 ar gyfer 2013/14, ynghyd â'r gwariant arfaethedig o £321,066 ar gyfer 2014/15 i fynd â'r broses gaffael i gam terfynol gorffen y broses Ariannol (y ddau fel y nodwyd yn atodiad 5).
g) dirprwyo caniatâd gofynion cyllideb parhaus i'r Cyd Bwyllgor PTGGGC (yn unol ag atodiad 5).

## 4. Manylion yr adroddiad.

4a) <u>dethol cynigydd o ddewis.</u>
Wedi ymgymryd â'r broses caffael trwy "ddeialog cystadleuol". Fel arfer ystyrir dau gynigydd a byddai hynny'n golygu gwneud penderfyniad ar ddad-ddethol. Fodd bynnag, yn achos prosiect NWRT, dyma'r ail gynigydd yn tynnu'r cais yn ôl ym mis Ionawr 2013, gan adael y cynigydd presennol mewn sefyllfa monopoli.

Ers i'r cynigydd arall dynnu'n ôl, mae'r tîm prosiect (a'r ymgeisydd sydd ar ôl) yn awyddus i ddangos bod y prosiect yn parhau i gyflawni gwerth am arian (GAA). Mae'r ymgyrch gwerth am arian wedi arwain at nifer o newidiadau sylweddol i'r hyn a fwriedir ei gaffael. Y canlyniad yn gyffredinol o'r newidiadau hyn yw bod y sefyllfa'n well i Sir Ddinbych, h.y. cymharu "cynnig" cytundeb IAA1 yn erbyn y canlyniad a ragwelir ar hyn o bryd (gweler 4b am fanylion).

Mae hynny'n bwysig, oherwydd o dan IAA1, roedd y cyngor o dan yr argraff mai dim ond os bydd y pris yn "anfforddiadwy" y caniateir tynnu'n ôl o'r prosiect. Ar ben hynny; nodwyd hefyd y byddai unrhyw gyngor a fyddai'n tynnu'n ôl o'u hochr nhw yn gorfod ad-dalu'r cynghorau sy'n weddill ar gyfer yr holl gostau canlyniadol hyd yma (yn debygol o fod yn sawl miliwn o bunnoedd).

Mewn gwirionedd mae'r prosiect yn hollol fforddiadwy (gweler Atodiad Un). Ar ben hynny, mae'n ymddangos bod yr achos busnes terfynol yn dangos gwerth gwirioneddol am arian. Mae'r cwmni hefyd wedi bodloni gofynion arbenigwyr cyfreithiol, technegol, ac ariannol y bartneriaeth. O ganlyniad, mae'n ymddangos nad oes unrhyw reswm nawr pam na ddylai'r cynigydd sy'n weddill gael y "statws cynigydd o ddewis".

<u>4b) Cytundeb Rhwng Awdurdodau Rhif 2</u>

"Cytundeb i gaffael" oedd IAA (Rhif 1), oedd yn ymwneud â phopeth hyd at ddyfarnu'r contract terfynol. Mae IAA2 yn ymwneud â gweithredu'r contract ei hun, h.y. o'r cyfnod y dyfernir y contract a thu hwnt. Mae'r IAA2 drafft wedi'i gynnwys fel Atodiad i'r adroddiad hwn. Mae'r cytundeb yn ddogfen gyfreithiol gymhleth sy'n ymwneud â phob agwedd o sut y rheolir y contract. Mae'r nodweddion hanfodol fel a ganlyn:

i) Y prif gyfleuster gwaredu gwastraff fydd ynni gwastraff o ffatri ym mharc diwydiannol Glannau Dyfrdwy, a weithredir gan Wheelabrator Technologies Ltd (WTI). Telir am y gwaith dros gyfnod o 25 mlynedd

drwy "ffioedd giât". Yr un mecanwaith codi tâl a ddefnyddir gan bob cyngor.

ii) Bydd ffioedd giât yn amrywio'n ôl y tunelli a drosglwyddir. Mae gan y cynghorau ddewis o estyniad 5 mlynedd ar gael iddynt.

iii) Bydd Cyngor Sir y Fflint yn mynd i mewn i'r prif gontract gyda WTI, ac yna'n ail godi ffi ar y cynghorau eraill am eu gwasanaethau. Cyflogir tîm bychan i wneud y gwaith hwn.

iv) O dan IAA1, cytunwyd ar egwyddor fod y cynghorau'n rhannu costau cludiant, hy rhwng y gwahanol orsafoedd trosglwyddo ym mhob sir a'r ffatri newydd. Yn Sir Ddinbych defnyddir y gorsafoedd yn Rhuthun, a lleoliad (eto i'w benderfynu); y bwriad yw disodli'r safle tirlenwi yn Llanddulas.

v) Bydd y cynghorau'n talu costau eu hunain mewn perthynas â gweithredu'r gorsafoedd trosglwyddo. Mae'r egwyddor hon yn amrywiad ar yr egwyddor a nodir yn IAA1. Fodd bynnag, nid yw'n ffactor arwyddocaol yng nghyfrifiad gwerth am arian Sir Ddinbych. Yn fras mae'n gost niwtral i Sir Ddinbych.

vi) O dan IAA1 fe gytunodd y cyngor i ddarparu lleiafswm tunelledd gwarantedig o wastraff, a chodir ffi amdano, hyd yn oed os nad oedd y cyngor yn gallu ei gyflawni am ryw reswm. Yn 1AA2 mae'r tunelledd a bennir yn is na IAA1. Hynny yw, fod y sefyllfa wedi gwella ar gyfer Sir Ddinbych.

vii) O dan IAA1 mae'r atebolrwydd am y gost cludo ar y cyd yn llawer uwch nag yn IAA2. Unwaith eto, mae'n sefyllfa well.

Ar y cyfan mae'r IAA2 yn cynnig gwell sefyllfa i'r cyngor na IAA1. Mae swyddogion technegol yn fodlon â'r prif nodweddion, ac mae'r cymalau cyfreithiol wedi eu drafftio i foddhad swyddogion cyfreithiol y cyngor. Felly mae'r swyddogion yn argymell y dylid cefnogi'r drafft.

Mae un eitem newydd arfaethedig yn IAA2 (heb ei gynnwys yn IAA1), h.y. "taliad er budd y gymuned". Byddai'r arian yn cael ei wario ar brosiectau cymunedol lleol y cytunwyd arnynt. Mae'r swm yn adlewyrchiad o'r ffaith bod Sir y Fflint wedi cynnig defnydd o'u tir yn rhad ac am ddim. Byddai'r dull o ddosrannu taliadau (hy y cyfraniadau gan gynghorau unigol) ar sail "sawl tunnell a ddosbarthwyd". Dyma'r dull gorau ar gyfer Sir Ddinbych. Byddai derbyn IAA2 yn golygu derbyn y tâl hwn.

<u>4c) Cymeradwyo'r gyllideb caffael sydd ar ôl</u>

Mae costau caffael wedi rhagori ar y rhai a awdurdodwyd yn flaenorol o ganlyniad i oedi a ffactorau eraill. Felly, gofynnir am gymeradwyaeth i ganiatáu gwariant ar drwydded rhwng Ebrill a Mehefin 2014 (cau'n ariannol), gan y byddwn yn rhagori ar y gyllideb IAA wreiddiol o 5% ac mae angen cymeradwyaeth gan bartner awdurdod i ragori ar hynny (manylion wedi eu hesbonio mewn adroddiad ar wahân - Atodiad 3). Mae'r ail argymhelliad yn adroddiad 1 yn cynnig pennu nenfwd ar gyfer y gwariant ar reoli contract yn y dyfodol o £359,000 y flwyddyn. Bydd cyfran Sir Ddinbych yn seiliedig ar y tunelli a ddosberthir yn y dyfodol, felly yn debygol o fod tua 11 i 13% o'r swm hwn (oddeutu £43,000 y flwyddyn ar y mwyaf).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y contract hwn yn helpu i gyflawni'r rhaglen gynaliadwyedd. Bydd ynni'n cael ei adennill o'r gwastraff a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

a) Mae cwmpas yr adroddiad hwn yn cael ei gyfyngu i ddethol cynigydd o ddewis, cefnogaeth i'r ddogfen drafft IAA2, a thalu costau caffael. Fodd bynnag, mae'r achos busnes terfynol ar gyfer y prosiect yn dangos bod yr ateb a ddewisir yn rhatach na "busnes fel arfer".

b) Nod y contract yw gwaredu swmp o wastraff felly nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyhoedd o ran cydraddoldeb ac nid oes unrhyw ffactorau bioamrywiaeth berthnasol. Mae effeithiau Amgylcheddol y prosiect yn fuddiol, bydd ynni'n cael ei adennill o'r gwastraff a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi.

**7. Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)**

Nid oes unrhyw ganlyniadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd nac ar drefniadau gwaith i staff y cyngor (gweler atodiad 9).

**8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?**

Mae swyddogion cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych wedi cymryd rhan gwbl weithredol yn y gwaith o ddrafftio'r IAA2. Cynhaliwyd sesiwn anffurfiol yn hysbysu'r cyngor ar 4 Chwefror. Mae'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi ystyried y mater ar 6 Chwefror 2014. Roedd yr aelodau'n hyderus bod y Prosiect wedi'i werthuso'n llawn ar bob lefel ac felly'n gadarn. Roedd y Pwyllgor hefyd yn gefnogol o'r cais i ddirprwyo'r pwerau i'r Cydbwyllgor i grynhoi unrhyw drafodaethau angenrheidiol. Gofynnwyd am gymeradwyaeth ffurfiol gan y Cabinet ar 18 Chwefror 2014.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r newidiadau i'r cynigion a wnaed ers i'r ail gynigydd dynnu'n ôl wedi arwain at gynnig ariannol gwell ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Er y bydd y penderfyniad terfynol ar yr achos busnes terfynol yn destun adroddiad yn y dyfodol, mae'r achos busnes ar hyn o bryd yn dangos bod yr ateb arfaethedig hefyd yn rhatach na chost y gwaith presennol hefyd. Mae hyn yn cefnogi derbyn y ddau argymhelliad yn yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os byddai'r cyngor yn methu ag ymrwymo i'r cytundeb, byddai'r cynghorau eraill yn dioddef costau canlyniadol, a byddai Sir Ddinbych yn atebol amdanynt. Efallai y bydd y prosiect cyfan yn cael ei beryglu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

O dan Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, h.y. hyrwyddo neu wella'r amgylchedd er lles yr ardal.

**Atodiadau**

1. Adroddiad IAA2
2. Crynodeb o bapur IAA2 (papur Pinsent Mason)
3. Drafft Diwygiedig o IAA2 ei hun
4. Polisi Diogelu Data (sy'n cyd-fynd â'r drafft IAA2)
5. Adroddiad y Gyllideb (yn dilyn y papurau IAA2)
6. Adroddiad Cynigydd o Ddewis (drafft ynghlwm) **EITEM RHAN 2**
7. Adroddiad Gwerthuso ymgynghorwyr cyfunol (Atodiad A i'r Adroddiad Cynigydd o Ddewis) **EITEM RHAN 2**
8. Crynodeb o'r Cytundeb Prosiect (Atodiad C i'r Adroddiad Cynigydd o Ddewis) **EITEM RHAN 2**
9. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb